# Pam rydyn ni'n aros? Oedi mewn gofal cymdeithasol yng Nghymru

Creu Cymru oed gyfeillgar

# Crynodeb gweithredol

## Ynglŷn â'r ymchwil

Gwnaeth prosiect eiriolaeth dementia Age Cymru, prosiect eiriolaeth HOPE (Helpu eraill i gymryd rhan ac ymgysylltu) a Chyngor Age Cymru nodi pryderon fod yna oedi wrth i bobl hŷn gael eu hasesu gan ofal cymdeithasol ar gyfer eu hanghenion, yn ogystal ag oedi wrth ddod o hyd i becynnau gofal ar ôl cwblhau asesiad. Mae'r oedi hwn yn cael effaith andwyol sylweddol ar yr unigolion hynny sy'n aros, eu gofalwyr, eu teulu a'u rhwydwaith cymorth ehangach.

Drwy ein hymchwil roeddem am ddeall:

- Maint y broblem o aros am ofal i bobl hyn ledled Cymru
- Cynlluniau'r awdurdodau lleol ar gyfer adfer y gwasanaeth gofal
- Y cymorth sydd ar gael i bobl hŷn sy'n aros am ofal ar hyn o bryd
- Beth allai Age Cymru a'r trydydd sector ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol i wella?

Er mwyn casglu'r wybodaeth angenrheidiol, cyflwynwyd cais Rhyddid Gwybodaeth i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a gofynnwyd am gyfarfod ag arweinwyr gofal cymdeithasol.

## Casgliadau

1) Mae ymdrechion ledled Cymru i wella o'r pandemig a gwella gofal cymdeithasol i bobl hŷn, a chefnogi gofalwyr.
2) Mae angen gwella'r cyfathrebu â phobl hŷn sydd yn aros.
3) Nid yw'r ffordd mae data yn cael ei gasglu mewn llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn effeithiol ar gyfer monitro ac adrodd am y sawl sydd yn aros am asesiad gofal neu yn aros i becyn gofal gael ei weithredu.
4) Mae nifer y bobl sy'n aros am ofal a chymorth ar hyn o bryd a'r effeithiau andwyol y mae hyn yn eu cael arnynt hwy, eu gofalwyr, eu teulu ehangach a'u cymuned yn golygu bod angen cymorth ar unwaith i'r unigolion hynny, yn ogystal â newid hirdymor yn y system, ar frys.
5) Mae angen canolbwyntio mwy o adnoddau i gefnogi pobl i fod yn gyffyrddus wrth aros o fewn gofal cymdeithasol

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant a'i cofrestrir yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Llawr Gwaelod, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD.
©Age Cymru 2022

# Argymhellion

## Argymhelliad 1

Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r un system rheoli achosion a sicrhau bod y data a gesglir yn gyson ledled Cymru. Bydd hyn hefyd yn helpu'r rhai sy'n symud siroedd i gael gwasanaeth mewn modd amserol. Efallai y bydd Data Cymru yn gallu cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu eglurder a chysondeb o ran cofnodi ar wahanol gamau o'r broses asesu gofal.

## Argymhelliad 2

Dylai awdurdodau lleol asesu eu gweithdrefnau presennol ar gyfer cyswllt cyntaf a chyfathrebu parhaus ar gyfer pobl sydd angen gofal a gwneud gwelliannau lle y nodir hynny. Dylai hyn gynnwys:

## Argymhelliad 3

Dylai awdurdodau lleol ddarparu adnoddau penodol ar gyfer mynd i'r afael â'r unigolion hynny sy'n gorfod aros mwy na 30 diwrnod ar hyn o bryd am asesu anghenion gofal neu weithredu pecyn gofal. Er bod nifer y bobl a nodwyd sy'n aros mwy na 30 diwrnod yn gymharol fach o ran nifer, mae'r effaith ar yr unigolion hynny'n aruthrol: gall aros gael effaith negyddol enfawr ar iechyd meddwl a chorfforol yr unigolyn sy'n aros yn ogystal ag ar ofalwyr, y teulu a'r rhwydwaith cymorth ehangach.

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu ffocws cenedlaethol, gan archwilio pa gymorth sydd ei angen wrth i bobl aros a sut y darperir hyn, yn gyfartal â'r gwaith ar aros yn dda yn y sector gofal iechyd.

## Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth ranbarthol, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod cyllid y trydydd sector yn cael ei ddarparu ar sail gynaliadwy. Darperir cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth y trydydd sector yn aml ar sail tymor byr, sy'n ei gwneud yn anodd datblygu gwasanaethau o ansawdd da yn gyflym, a chael y gwydnwch i allu addasu'n gyflym mewn cyfnod o argyfwng. Mae cyllid tymor byr yn aml yn golygu bod recriwtio'n parhau, gan fod staff yn gadael am well sicrwydd cyflogaeth.

## Argymhelliad 6

Mae angen rhoi pwyslais ar ddysgu rhwng awdurdodau lleol a rhannu arferion da. Bydd hyn yn lleihau maint y gwaith y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud ac yn eu helpu i osgoi peryglon y mae awdurdodau lleol eraill wedi mynd i'r afael â hwy.

## Argymhelliad 7

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod asesiadau o anghenion y boblogaeth yn cynnwys ffocws ychwanegol ar ragnodi cymdeithasol a'r hyn sydd ei angen i helpu pobl i gynnal eu lles. Dylai'r gwaith o gynllunio gwasanaethau o'r fath gynnwys ymgysylltu â phobl hŷn ar bob lefel. Dylid comisiynu gwasanaethau o'r fath ar sail gynaliadwy.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant a'i cofrestrir yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Llawr Gwaelod, Mariners House, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd CF24 5TD.
©Age Cymru 2022